



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

## Fersiwn – Mai 2021 (Yn cynnwys gofynion y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol)

At ddiben y ddogfen hon, gall y gair 'cynnig' gyfeirio at unrhyw bolisiâu, strategaethau, gweithdrefnau, adolygiadau, prosiectau a chynlluniau. O ran gofynion y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru o 31 Mawrth 2021, dylid hefyd asesu prosesau gwneud penderfyniadau strategol wrth ystyried unrhyw effeithiau economaidd-gymdeithasol posibl.

Dylid cynnal Asesiad Effaith ar wahân a phenodol mewn perthynas â gofynion y Gymraeg.

### Enw'r Polisi/Weithdrefn/Prosiect/Darn o Gyfarpar/Cynnig

Y Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023-2024

**Cyfarwyddiaeth/Adran/Tîm** Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes

### Dyddiad sgrinio

**Mawrth 2023**

### Pwy yw'r prif fuddiolwyr/ddefnyddwyr?

*h.y. staff, y gymuned, grwpiau, busnesau, ac ati.*

Mae ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol ar gyfer pawb sy'n byw neu'n gweithio yn y chwe sir y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn eu cwmpasu, neu sy'n ymweld â nhw.

### Nodau, amcanion a chanlyniadau

*Beth y bydd y cynnig yn ei gyflawni? Atodwch unrhyw ddolenni/ddogfennau perthnasol*

Mae ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol yn nodi ein Hamcanion Gwella a Llesiant, ac yn dangos lle yr ydym am ganolbwyntio sylw arbennig yn ystod y deuddeg mis nesaf er mwyn cefnogi'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd yr ydym yn eu gwasanaethau, a'r bobl sy'n ymweld â nhw.

**ASESIAD  
O'R EFFAITH AR  
GYDRADDOLDEB**





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

Mae Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023-2024 yn amlinellu saith Amcan Gwella a Llesiant ar gyfer 2023-2024. Mae'r amcanion blynyddol o ran Gwella a Llesiant wedi'u halinio ag ymrwymadau tymor hwy y Gwasanaeth, fel y'u nodir yn y Nodau Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cafodd yr Amcanion Gwella a Llesiant eu llunio trwy gyfres o weithdai gyda staff, Aelodau Etholedig, a Chyrff Cynrychioliadol, a hefyd trwy gyfnod ymgynghori deng wythnos â'n rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.

Mae Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023-2024 yn adrodd ar gyfeiriad strategol yr Awdurdod ar gyfer 2023-2024, yn ogystal â rhoi gwlybod i'r holl rhanddeiliaid am Amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2023-2024.

Prif nod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yw gwneud pobl yn fwy diogel. Bydd y Cynllun Gwella Busnes Blynyddol yn darparu trosolwg o'n Hamcanion Gwella a Llesiant, ac o'r modd yr ydym yn bwriadu defnyddio ein hadnoddau i wella diogelwch a llesiant y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ein helpu i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng pobl, yn ogystal ag atal gwahaniaethu anghyfreithlon. Mae'n offeryn a fydd yn ein helpu gyda'n hymchwil pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau allweddol, neu'n datblygu prosiect, polisi, gweithdrefn neu fenter sy'n effeithio ar ein staff neu ein cymunedau. Bydd yr aseiad hefyd yn gweithredu fel archwiliad o'r penderfyniadau yr ydym yn eu cynnig.

Mae asesu'r effaith/risg yn ofyniad cyfreithiol. Rhaid i ni ystyried y modd y mae'r penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud yn effeithio ar bobl, ac ystyried eu nodweddion gwarchoddedig, sef: oedran, anabledd, aillbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau strategol, rhaid hefyd ystyried unrhyw effeithiau posibl oherwydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

**ASESIAD  
O'R EFFAITH AR  
GYDRADDOLDEB**





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

## Sgrinio Effaith

Ystyriwch bob un o'r agweddau isod a nodwch a yw eich cynnig am gael effaith gadarnhaol neu negyddol, yna dewiswch a yw risg yr effaith yn **isel**, yn **ganolig** neu'n **uchel**.

Lefel y Risg	
<b>Isel</b>	Fawr ddim effaith ar nodwedd warchoddedig, neu gyn lleied o effaith â phosibl. Effaith niweidiol yn annhebygol.
<b>Canolig</b>	Effaith sylweddol ar nodwedd warchoddedig. Bydd yn effeithio ar y gymuned, y staff neu'r broses fusnes, ac mae angen archwilio ymhellach. Mae angen ystyried dadansoddiad o'r wybodaeth ansoddol a meintiol, fel ei gilydd. Effaith niweidiol yn eithaf tebygol.
<b>Uchel</b>	Effaith fawr neu allweddol ar nodwedd warchoddedig, ac effaith ddifrifol ar y gymuned, y staff neu'r broses fusnes a fyddai'n cael effaith fawr ar ansawdd y gwasanaeth, hyder y staff ac enw da yn y gymuned. Mae angen ystyried dadansoddiad o'r wybodaeth ansoddol a meintiol, fel ei gilydd.

Nodweddion Gwarchoddedig	Effaith Gadarnhaol neu Negyddol	Lefel y Risg (uchel, canolig, isel)	Eglurwch eich asesiad	Tystiolaeth o arfer da
<b>Oedran</b> (iau, hŷn neu grŵp oedran penodol)	Cadarnhaol	Isel	<p>Mae ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol ar gyfer 2023-2024 yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ac yn ein galluogi i gydnabod anghenion byrdymor, tymor canolig a mwy hirdymor y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Ledled ein Hamcanion Gwella a Llesiant, mae yna gyfeiriad clir a fydd yn sicrhau bod ein gweithlu yn ymwybodol o anghenion ei gymunedau ac yn gweithio tuag</p>	<p>Mae'r Cynllun Gwella Busnes Blynyddol ar gael mewn sawl fformat, sy'n cynnwys fersiwn electronig, fersiwn Hawdd ei Deall, a chopi caled. Gellir cyrchu'r Cynllun trwy ein gwefan allanol, ac mae copïau caled hefyd ar gael ar gais.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod yr ymatebion yn cynnwys yr ystod oedran fwyaf posibl, a'u bod yn gynrychioliadol</p>

**ASESIAD  
O'R EFFAITH AR  
GYDRADDOLDEB**





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

		<p>at leihau'r risg ar gyfer aelodau cymdeithas sy'n agored i niwed. Bydd y Gwasanaeth yn targedu plant a phobl ifanc er mwyn eu haddysgu am beryglon tanau a gyrru peryglus.</p> <p>Mae Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023-24 yn gwbl gynhwysol ar gyfer pob oedran. Bwriedir i'r Amcanion Gwella a Llesiant gael effaith gadarnhaol ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p>	<p>o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, byddwn yn sicrhau bod data demograffeg ein hymatebwyr yn cael eu dadansoddi ac yn llywio strategaeth yn y dyfodol o ran ymgynghori.</p> <p>Bydd y cyfnod ymgynghori deng wythnos o hyd yn darparu gwybodaeth allweddol ychwanegol y byddwn yn ei defnyddio i sicrhau bod yr Amcanion Gwella a Llesiant yn cael effaith gadarnhaol ar bob oedran.</p> <p>Mae ein partneriaethau yn ein helpu i gael mynediad at bob rhan o'n cymunedau, gyda phwyslais arbennig ar grwpiau lleiafrifoedd sy'n anodd eu cyrraedd.</p> <p>Rydym yn ymdrechu i adnabod a chyrraedd y grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas trwy rwydweithio a'r cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn hygyrch i'n</p>
--	--	---	--





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

			<p>holl randdeiliaid trwy ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau. Byddwn yn ymgysylltu'n helaeth ac yn cynnwys dulliau o hyrwyddo'r Cynllun Gwella Busnes Blynyddol ar-lein a, lle bo hynny'n bosibl, ymhlith aelodau o'r cyhoedd (gan roi ystyriaeth i unrhyw gyfyngiadau a allai fod ar waith mewn perthynas â COVID-19).</p> <p>Cynhelir cyfnod ymgynghori deng wythnos o hyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, a bydd hyn yn rhoi cyfle i'n holl randdeiliaid gynnig eu barn am bob un o'r Amcanion Gwella a Llesiant sydd yn y Cynllun.</p> <p>Adroddir yn chwarterol ar y cynnydd a wneir o ran ein Hamcanion Gwella a Llesiant, a hynny i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad, sy'n galluogi i'r prosesau craffu angenrheidiol gael eu cynnal i sicrhau gwelliant parhaus.</p>
--	--	--	---





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

			<p>Gwyddom fod ein poblogaeth yn heneiddio, a bod pobl hŷn yn wynebu mwy o risg o ddigwyddiadau tân. Wrth i bobl heneiddio, gall fod yn fwy anodd iddynt ganfod ac ymateb i danau. Er enghraifft, gall fod yn fwy anodd iddynt glywed larymau mwg, arogl mwg, canfod newidiadau o ran gwres a diffodd offer. I leihau'r risgiau hyn, byddwn yn ceisio addasu ein gwasanaethau i ddiwallu anghenion ein poblogaeth sy'n heneiddio mewn cydweithrediad â'n hasiantaethau partner.</p> <p>At hynny, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ddeall y risgiau y mae pobl yn eu hwynebu yn eu cymunedau, ac yn defnyddio dull cydweithredol gydag asiantaethau partner i sicrhau diogelwch a llesiant ein cymunedau trwy ein hymweliadau diogel ac iach.</p>
--	--	--	---





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB



				<p>Rydym yn darparu ymwybyddiaeth addysgol i blant a phobl ifanc er mwyn eu haddysgu am broblemau a risgiau ymddygiad sy'n gysylltiedig â tân ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwyddom fod targedu pobl ifanc ag addysg ac ymwybyddiaeth yn allweddol o ran hyrwyddo diogelwch cymunedol.</p>
<p><b>Anabledd</b> (corfforol, synhwyraidd, iechyd meddwl, salwch hirdymor, cudd)</p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Isel</p>	<p>Mae ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol ar gyfer 2023-2024 yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ac yn ein galluogi i gydnabod anghenion byrdymor, tymor canolig a mwy hirdymor y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Ledled ein Hamcanion Gwella a Llesiant, mae yna gyfeiriad clir a fydd yn sicrhau bod ein gweithlu yn ymwybodol o anghenion ei gymunedau ac yn gweithio tuag at leihau'r risg ar gyfer aelodau cymdeithas sy'n agored i niwed.</p> <p>Gall yr wybodaeth sydd yn y Cynllun Gwella Busnes Blynyddol effeithio ar unigolion ag anabledd, a hynny o ran y</p>	<p>Mae Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023-2024 ar gael mewn sawl fformat, sy'n cynnwys fersiwn electronig, fersiwn Hawdd ei Deall, a chopi caled. Gellir cyrchu'r Cynllun ar ein gwefan allanol, felly gall yr unigolyn ei ddarllen yn rhwydd gan ddefnyddio ei osodiadau dewisol. Mae'r Cynllun hefyd ar gael mewn fformatau eraill, megis dogfennau Word a PDF.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn hapus i gynnig y Cynllun Gwella Busnes Blynyddol mewn fformatau amgen, ac mae'n gwneud hynny ar</p>



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

		<p>fformatau y mae'r Cynllun ar gael ynddynt. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys fersiwn Hawdd ei Deall ddwyieithog.</p> <p>Bwriedir i'r Amcanion Gwella a Llesiant gael effaith gadarnhaol ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p>	<p>hyn o bryd, ar gais yr unigolyn. Byddwn hefyd yn sicrhau bod yr wybodaeth am y fformatau gwahanol sydd ar gael wedi'i lleoli'n glir ar frig pob ymgynghoriad.</p> <p>Rydym yn ymdrechu i adnabod a chyrraedd y grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas trwy rwydweithio a'r cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn hygyrch i'n holl randdeiliaid trwy ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau. Mae'r Cynllun Gwella Busnes Blynyddol ar gael ar-lein ac yn gyhoeddus, fel ei gilydd.</p> <p>Mae'r term anabledd yn cwmpasu amrywiaeth eang o fathau o amhariadau a chyflyrau, ac mae'n bwysig cydnabod nad yw pobl anabl yn grŵp homogenaidd ac y bydd ganddynt amrywiaeth o anghenion a phrofiadau. Gall anableddau gynyddu'r tebygolrwydd y bydd</p>
--	--	---	--







Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB



unigolyn yn achosi tân yn ddamweiniol, gan hefyd rwystro pobl rhag dianc pan fydd yna dân. Credwn fod pobl yn fwy diogel pan fyddant yn gwybod rhagor am y risgiau y maent yn eu hwynebu, a phan fo ganddynt y gallu a'r cydnherthedd i'w helpu eu hunain. Mae Ymrwymiad Dau yn cydnabod hyn, ac rydym yn parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad i'r aelodau mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau er mwyn eu cadw'n ddiogel. Byddai enghraifft o hyn yn cynnwys sicrhau bod ganddynt larymau mwg arbenigol, sy'n cynnwys goleuadau a phadiau sy'n dirgrynu er mwyn rhybuddio pobl sy'n fyddar fod yna dân.

Mae ein hadran Diogelwch Tân Busnesau hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad i fusnesau ar wacáu adeiladau yn ddiogel mewn argyfwng ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn.



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

			<p>Mae Ymrwymiad Dau yn ymwneud â gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid ledled y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer ein cymunedau. Mae cydweithredu â'n hasiantaethau partner sy'n gysylltiedig â phobl agored i niwed yn ein galluogi i gyrraedd aelwydydd na fyddem wedi cael mynediad iddynt fel arall.</p> <p>Mae ymgynghoriadau blaenorol wedi nodi nad oes gan 75% o'r ymatebwyr unrhyw anabledd, nad oedd 11% wedi datgan a oedd ganddynt anabledd ai peidio, fod 8% wedi ateb bod ganddynt anabledd, a bod yn well gan 6% beidio â dweud. Felly, byddwn yn parhau i geisio casglu amrywiaeth eang o safbwyntiau wrth lunio ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol.</p> <p>Bydd y Gwasanaeth yn dosbarthu copïau o'r Cynllun trwy nifer o</p>
--	--	--	---





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

				<p>fforymau cydraddoldeb lleol a sefydliadau trydydd sector, a hynny mewn ymgais i gasglu ystod mor eang â phosibl o safbwyntiau. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd ein dulliau dosbarthu o ran cyfansoddiad yr ymatebwyr, a fydd yn llywio gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol. Efallai y bydd angen gwneud rhagor o waith i sicrhau cyfranogiad grwpiau agored i niwed heb gynrychiolaeth ddigonol.</p> <p>Cynhelir cyfnod ymgynghori deng wythnos o hyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, a bydd hyn yn rhoi cyfle i'n holl randdeiliaid gynnig eu barn am bob un o'r Amcanion Gwella a Llesiant y manylir arnynt yn y Cynllun Gwella Busnes Blynyddol.</p>
<b>Ailbennu Rhywedd</b> (rhywun sy'n pontio rhwng un rhyw a'r llall)	Cadarnhaol	Amh.	Mae ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol ar gyfer 2023-2024 yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ac yn ein galluogi i gydnabod anghenion byrdymor, tymor canolig a mwy	Bydd y Gwasanaeth yn dosbarthu Cynllun Gwella Busnes Blynyddol Strategol 2023-2024 yn eang mewn ymgais i gasglu ystod mor eang â phosibl o safbwyntiau. Byddwn yn





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

		<p>hirdymor y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Ledled ein Hamcanion Gwella a Llesiant, mae yna gyfeiriad clir a fydd yn sicrhau bod ein gweithlu yn ymwybodol o anghenion ei gymunedau ac yn gweithio tuag at leihau'r risg ar gyfer aelodau cymdeithas sy'n agored i niwed.</p> <p>Bwriedir i'r Amcanion Gwella a Llesiant gael effaith gadarnhaol ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i groesawu barn pawb wrth gydgyhyrchu ei Gynllun.</p> <p>Bydd y Cynllun Gwella Busnes Blynyddol yn cael effaith gadarnhaol deg ar ddynion a menywod, fel ei gilydd.</p> <p>Ni fydd y Cynllun Gwella Busnes Blynyddol yn cael effaith niweidiol ar y nodwedd hon. Bwriedir i'r Amcanion Gwella a Llesiant gael effaith gadarnhaol ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allanol i annog</p>	<p>monitro effeithiolrwydd ein dulliau dosbarthu o ran cyfansoddiad yr ymatebwyr, a fydd yn llywio gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.</p> <p>Byddwn yn parhau i geisio casglu amrywiaeth eang o safbwyntiau wrth lunio ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol er mwyn sicrhau cynhwysiant ac amrywiaeth ledled y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn darparu hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth ac Urddas yn y Gwaith ledled y Gwasanaeth er mwyn meithrin ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth berthnasol. Darperir yr hyfforddiant hwn i atgoffa cyflogeion o ddisgwyliadau'r Gwasanaeth o ran gweithredoedd ac ymddygiad, yr egwyddorion sy'n sail i bolisïau allweddol y Gwasanaeth a'r ddeddfwriaeth gyfredol, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo arfer da ar lefel leol.</p>
--	--	--	---





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

			<p>trefniadau gweithio agosach gyda grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a hynny fel sail i'w raglen allgymorth, ac mae ei brosesau cyfleoedd cyfartal mewnol wedi'u cynllunio i ystyried cyfleoedd cyfartal.</p>	<p>Cynhelir cyfnod ymgynghori deng wythnos o hyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, a bydd hyn yn rhoi cyfle i'n holl randdeiliaid gynnig eu barn am bob un o'r Amcanion Gwella a Llesiant y manylir arnynt yn y Cynllun.</p> <p>Adroddir yn chwarterol ar y cynnydd a wneir o ran ein Hamcanion Gwella a Llesiant, a hynny i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad, sy'n galluogi i'r prosesau craffu angenrheidiol gael eu cynnal i sicrhau gwelliant parhaus.</p>
<p><b>Priodas/Partneriaeth Sifil</b> (yn briod, yn ogystal â chyplau o'r un rhyw)</p>	<p>Dim effaith</p>	<p>Amh.</p>	<p>Mae ein Cynllun Gwella Busnes Blyneddol ar gyfer 2023-2024 yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ac yn ein galluogi i gydnabod anghenion byrdymor, tymor canolig a mwy hirdymor y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Ledled ein Hamcanion Gwella a Llesiant, mae yna gyfeiriad clir a fydd yn sicrhau bod ein gweithlu</p>	<p>Bydd y Gwasanaeth yn dosbarthu Cynllun Gwella Busnes Blyneddol 2023-2024 yn eang mewn ymgais i gasglu ystod mor eang â phosibl o safbwyntiau. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd ein dulliau dosbarthu o ran cyfansoddiad yr ymatebwyr, a fydd yn llywio gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.</p>





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

			<p>yn ymwybodol o anghenion ei gymunedau ac yn gweithio tuag at leihau'r risg ar gyfer aelodau cymdeithas sy'n agored i niwed.</p> <p>Bwriedir i'r Amcanion Gwella a Llesiant gael effaith gadarnhaol ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Ni fydd Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023-2024 yn cael effaith niweidiol ar y nodwedd hon.</p>	<p>Ein bwriad ni, y Gwasanaeth, yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, yn ogystal ag i'n staff. Felly, byddwn yn sicrhau bod yr holl gyflogeion yn cael eu trin yn deg, ni waeth beth yw eu statws o ran priodas neu bartneriaeth sifil.</p> <p>Cynhelir cyfnod ymgynghori deng wythnos o hyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, a bydd hyn yn rhoi cyfle i'n holl randdeiliaid gynnig eu barn am bob un o'r Amcanion Gwella a Llesiant y manylir arnynt yn y Cynllun.</p> <p>Adroddir yn chwarterol ar y cynnydd a wneir o ran ein Hamcanion Gwella a Llesiant, a hynny i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad, sy'n galluogi i'r prosesau craffu angenrheidiol gael eu cynnal i sicrhau gwelliant parhaus.</p>
<b>Bechiogrwydd a Mamolaeth</b>	Dim effaith	Amh.	Mae ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol ar gyfer 2023-2024	Bydd y Gwasanaeth yn dosbarthu Cynllun Gwella





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB



<p>(Beichiogrwydd, absenoldeb mamolaeth, bwydo ar y fron)</p>			<p>yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ac yn ein galluogi i gydnabod anghenion byrdymor, tymor canolig a mwy hirdymor y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Ledled ein Hamcanion Gwella a Llesiant, mae yna gyfeiriad clir a fydd yn sicrhau bod ein gweithlu yn ymwybodol o anghenion ei gymunedau ac yn gweithio tuag at leihau'r risg ar gyfer aelodau cymdeithas sy'n agored i niwed.</p> <p>Bwriedir i'r Amcanion Gwella a Llesiant gael effaith gadarnhaol ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Mae trefniadau gweithio hyblyg mewnol ar waith, sy'n galluogi menywod beichiog i ymgymryd â dyletswyddau amgen, lle bo hynny'n briodol. Gall cyfleusterau hefyd fod ar gael ar gyfer mamau sy'n bwydo ar y fron, lle bo hynny'n briodol.</p> <p>Ni fydd Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023-2024 yn cael effaith niweidiol ar y nodwedd hon.</p>	<p>Busnes Blynyddol 2023-2024 yn eang mewn ymgais i gasglu ystod mor eang â phosibl o safbwyntiau. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd ein dulliau dosbarthu o ran cyfansoddiad yr ymatebwyr, a fydd yn llywio gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.</p> <p>Ein bwriad ni, y Gwasanaeth, yw arfogi'r holl staff â'r sgiliau angenrheidiol a'r amgylchedd y mae ei angen i ymgymryd â'u rolau. Caiff iechyd a diogelwch personél sy'n feichiog ac sy'n bwydo ar y fron, a'r rheiny sydd ar gyfnod mamolaeth, eu hystyried o ran y telerau ac amodau cyflogaeth a'r gweithdrefnau gweithredu priodol.</p> <p>Cynhelir cyfnod ymgynghori deng wythnos o hyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, a bydd hyn yn rhoi cyfle i'n holl randdeiliaid gynnig eu barn am bob un o'r Amcanion Gwella a Llesiant</p>
---	--	--	--	--



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

				<p>y manylir arnynt yn y Cynllun.</p> <p>Adroddir yn chwarterol ar y cynnydd a wneir o ran ein Hamcanion Gwella a Llesiant, a hynny i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad, sy'n galluogi i'r prosesau craffu angenrheidiol gael eu cynnal i sicrhau gwelliant parhaus.</p>
<p><b>Hil</b> (Tarddiad ethnig, cenedligrwydd, lliw, yn cynnwys sipsiwn a theithwyr)</p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Isel</p>	<p>Mae ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol ar gyfer 2023-2024 yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ac yn ein galluogi i gydnabod anghenion byrdymor, tymor canolig a mwy hirdymor y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Ledled ein Hamcanion Gwella a Llesiant, mae yna gyfeiriad clir a fydd yn sicrhau bod ein gweithlu yn ymwybodol o anghenion ei gymunedau ac yn gweithio tuag at leihau'r risg ar gyfer aelodau cymdeithas sy'n agored i niwed.</p> <p>Bwriedir i'r Amcanion Gwella a Llesiant gael effaith gadarnhaol ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda</p>	<p>Bydd y Gwasanaeth yn dosbarthu Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023-2024 yn eang mewn ymgais i gasglu ystod mor eang â phosibl o safbwyntiau. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd ein dulliau dosbarthu o ran cyfansoddiad yr ymatebwyr, a fydd yn llywio gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.</p> <p>Mae ymgynghoriadau blaenorol wedi nodi bod 79% o'r ymatebwyr yn Wyn, bod yn well gan 8% beidio â dweud, nad oedd 1% wedi datgan eu hethnigrwydd, fod 1% yn Ddu Affricanaidd, fod 1% yn Gymysg a bod 1% yn Arall.</p>







Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

			<p>rhanddeiliaid a phartneriaid allanol i annog trefniadau gweithio agosach gyda grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a hynny fel sail i'w raglen allgymorth, ac mae ei brosesau cyfleoedd cyfartal mewnol wedi'u cynllunio i ystyried cyfleoedd cyfartal.</p>	<p>Felly, byddwn yn parhau i geisio casglu amrywiaeth eang o safbwyntiau wrth lunio ein Cynllun er mwyn sicrhau cynhwysiant ac amrywiaeth ledled cymunedau.</p> <p>Mae yna amrywiaethau rhanbarthol sylweddol o ran y poblogaethau amrywiol ledled ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru, gyda'r ardaloedd dinesig yn cynnwys poblogaeth fwy amrywiol o ran ethnigrwydd, a'r ardaloedd gwledig yn meddu ar broffiliau ethnig lleiafrifol isel iawn.</p> <p>Byddwn yn targedu ein gweithgareddau atal ac yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddarparu cyngor ac arweiniad i'r rhai mwyaf anghenus ac aelodau mwyaf agored i niwed ac anodd eu cyrraedd ein cymunedau.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn darparu hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth ac Urddas yn y Gwaith</p>
--	--	--	---	--





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB



			<p>ledled y Gwasanaeth er mwyn meithrin ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth berthnasol. Darperir yr hyfforddiant hwn i atgoffa cyflogeion o ddisgwyliadau'r Gwasanaeth o ran gweithredoedd ac ymddygiad, yr egwyddorion sy'n sail i bolisiau allweddol y Gwasanaeth a'r ddeddfwriaeth gyfredol, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo arfer da ar lefel leol.</p> <p>Rydym am fod yn gyflogwr o ddewis sy'n adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn cydnabod bod cyfran y staff sy'n perthyn i grŵp ethnig lleiafrifol yn is na'r gyfran genedlaethol. Rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o fynd i'r afael â hyn trwy fentrau gweithredu cadarnhaol, er enghraifft diwrnodau ymwybyddiaeth a mentrau hyrwyddo a meithrin ymwybyddiaeth ar-lein.</p>
--	--	--	---



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

				<p>Cynhelir cyfnod ymgynghori deng wythnos o hyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, a bydd hyn yn rhoi cyfle i'n holl randdeiliaid gynnig eu barn am bob un o'r Amcanion Gwella a Llesiant y manylir arnynt yn y Cynllun Gwella Busnes Blynyddol.</p> <p>Adroddir yn chwarterol ar y cynnydd a wneir o ran ein Hamcanion Gwella a Llesiant, a hynny i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad, sy'n galluogi i'r prosesau craffu angenrheidiol gael eu cynnal i sicrhau gwelliant parhaus.</p>
<b>Crefydd/Cred</b> (Cristnogol, Mwslimaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Bwdhaidd)	Cadarnhaol	Amh.	<p>Mae ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol ar gyfer 2023-2024 yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ac yn ein galluogi i gydnabod anghenion byrdymor, tymor canolig a mwy hirdymor y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Ledled ein Hamcanion Gwella a Llesiant, mae yna gyfeiriad clir a fydd yn sicrhau bod ein gweithlu yn ymwybodol o anghenion ei gymunedau ac yn gweithio tuag</p>	<p>Bydd y Gwasanaeth yn dosbarthu Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023-2024 yn eang mewn ymgais i gasglu ystod mor eang â phosibl o safbwyntiau. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd ein dulliau dosbarthu o ran cyfansoddiad yr ymatebwyr, a fydd yn llywio gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.</p>





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

		<p>at leihau'r risg ar gyfer aelodau cymdeithas sy'n agored i niwed.</p> <p>Bwriedir i'r Amcanion Gwella a Llesiant gael effaith gadarnhaol ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i groesawu barn pawb wrth gydgyhyrchu ei Gynllun Gwella Busnes Blynnyddol.</p> <p>Wrth gyflawni'r Amcanion Gwella a Llesiant, byddir yn ystyried defodau crefyddol, gan gynnwys gwyliau ac arferion crefyddol eraill.</p> <p>Ni fydd y Cynllun Gwella Busnes Blynnyddol yn cael effaith niweidiol ar y nodwedd hon. Bwriedir i'r Amcanion Gwella a Llesiant gael effaith gadarnhaol ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allanol i annog trefniadau gweithio agosach gyda grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a hynny fel sail i'w raglen allgymorth, ac mae ei brosesau cyfleoedd cyfartal mewnol</p>	<p>Mae ymgynghoriadau blaenorol wedi nodi bod 40% o'r ymatebwyr yn ardal y Gwasanaeth yn Gristnogion, nad yw 21% yn arddel unrhyw grefydd, fod yn well gan 13% beidio â dweud, fod 1% yn Sikhaidd, a bod 1% yn Fwdhaidd. Felly, byddwn yn parhau i geisio casglu amrywiaeth eang o safbwyntiau wrth lunio ein Cynllun Gwella Busnes Blynnyddol er mwyn sicrhau cynhwysiant ac amrywiaeth ledled cymunedau.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod yr holl gymunedau a wasanaethwn yn ddiogel, byddwn yn gweithio i gynyddu ein dealltwriaeth o'r anghenion a'r gofynion penodol sy'n deillio o'u credoau crefyddol neu o'u credoau eraill. Mae yna dystiolaeth bod ymarferion crefyddol ac arferion coginio penodol, er enghraifft defnyddio canhwyllau yn ystod dathliadau crefyddol, yn gallu cynyddu'r risg o danau domestig. Felly, byddwn yn</p>
--	--	--	---





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

			<p>wedi'u cynllunio i ystyried cyfleoedd cyfartal.</p>	<p>teilwra ein cyngor ar ddiogelwch a'n negeseuon allweddol i grwpiau crefyddol, yn arbennig ar adeg digwyddiadau a gwyliau crefyddol.</p> <p>Byddwn yn targedu ein gweithgareddau atal ac yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddarparu cyngor ac arweiniad i'r rhai mwyaf anghenus ac aelodau mwyaf agored i niwed ac anodd eu cyrraedd ein cymunedau.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn darparu hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth ac Urddas yn y Gwaith ledled y Gwasanaeth er mwyn meithrin ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth berthnasol. Darperir yr hyfforddiant hwn i atgoffa cyflogeion o ddisgwyliadau'r Gwasanaeth o ran gweithredoedd ac ymddygiad, yr egwyddorion sy'n sail i bolisiâu allweddol y Gwasanaeth a'r ddeddfwriaeth gyfredol, yn ogystal â chynyddu</p>
--	--	--	--	--





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

			<p>ymwybyddiaeth a hyrwyddo arfer da ar lefel leol.</p> <p>Cynhelir cyfnod ymgynghori deng wythnos o hyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, a bydd hyn yn rhoi cyfle i'n holl randdeiliaid gynnig eu barn am bob un o'r Amcanion Gwella a Llesiant y manylir arnynt yn y Cynllun.</p> <p>Adroddir yn chwarterol ar y cynnydd a wneir o ran ein Hamcanion Gwella a Llesiant, a hynny i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad, sy'n galluogi i'r prosesau craffu angenrheidiol gael eu cynnal i sicrhau gwelliant parhaus.</p>
--	--	--	---





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

<p><b>Rhywedd</b> (Dynion neu fenywod)</p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Amh.</p>	<p>Mae ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol ar gyfer 2023-2024 yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ac yn ein galluogi i gydnabod anghenion byrdymor, tymor canolig a mwy hirdymor y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Ledled ein Hamcanion Gwella a Llesiant, mae yna gyfeiriad clir a fydd yn sicrhau bod ein gweithlu yn ymwybodol o anghenion ei gymunedau ac yn gweithio tuag at leihau'r risg ar gyfer aelodau cymdeithas sy'n agored i niwed.</p> <p>Bwriedir i'r Amcanion Gwella a Llesiant gael effaith gadarnhaol ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i groesawu barn pawb wrth gydgyhyrchu ei Gynllun.</p> <p>Bydd y Cynllun Gwella Busnes Blynyddol yn cael effaith gadarnhaol deg ar ddynion a menywod, fel ei gilydd.</p> <p>Ni fydd y Cynllun Gwella Busnes Blynyddol yn cael effaith niweidiol ar y nodwedd hon. Bwriedir i'r Amcanion Gwella a Llesiant gael effaith gadarnhaol ar y</p>	<p>Bydd y Gwasanaeth yn dosbarthu Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023-2024 yn eang mewn ymgais i gasglu ystod mor eang â phosibl o safbwyntiau. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd ein dulliau dosbarthu o ran cyfansoddiad yr ymatebwyr, a fydd yn llywio gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.</p> <p>Mae ymgynoriadau blaenorol wedi nodi bod 48% yn wrywaidd a bod 36% yn fenywaidd. Nid oedd 12% wedi datgan eu rhywedd, ac roedd yn well gan 4% beidio â dweud. Felly, byddwn yn parhau i geisio casglu amrywiaeth eang o safbwyntiau wrth lunio ein</p>
--	-------------------	-------------	---	---





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

			<p>cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allanol i annog trefniadau gweithio agosach gyda grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a hynny fel sail i'w raglen allgymorth, ac mae ei brosesau cyfleoedd cyfartal mewnol wedi'u cynllunio i ystyried cyfleoedd cyfartal.</p>	<p>Cynllun Gwella Busnes Blynyddol er mwyn sicrhau cynhwysiant ac amrywiaeth ledled y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Mae ein dadansoddiad o ymatebwyr i ymgynoriadau yn y gorffennol yn awgrymu bod yna gydbwysedd cymesur rhwng y rhywiau. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu hyn a chymryd camau lle bo angen.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn darparu hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth ac Urddas yn y Gwaith ledled y Gwasanaeth er mwyn meithrin ymwybyddiaeth a darparu</p>
--	--	--	---	---







Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

			<p>gwybodaeth berthnasol. Darperir yr hyfforddiant hwn i atgoffa cyflogeion o ddisgwyliadau'r Gwasanaeth o ran gweithredoedd ac ymddygiad, yr egwyddorion sy'n sail i bolisiâu allweddol y Gwasanaeth a'r ddeddfwriaeth gyfredol, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo arfer da ar lefel leol.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle ac, yn rhan o hynny, rydym yn Aelod Corfforaethol o'r mudiad Menywod yn y Gwasanaeth Tân. Cynhelir penwythnosau datblygu blynyddol, sy'n galluogi</p>
--	--	--	---





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

			<p>aelodau benywaidd o'r staff i fynychu a dysgu rhagor am y rolau gwahanol yn y Gwasanaeth Tân. Nod y digwyddiadau hyn yw galluogi ac ysbrydoli menywod hyderus a llwyddiannus i adeiladu Gwasanaeth Tân ac Achub mwy blaengar.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynnal digwyddiadau ymwybyddiaeth o ddiffoddwyr tân benywaidd yn rheolaidd er mwyn hyrwyddo'r rolau gweithredol yn y Gwasanaeth, meithrin ymwybyddiaeth, ac annog benywod i geisio am yrfa yn y Gwasanaeth Tân. Mae'r digwyddiadau hyn yn eithriadol o boblogaidd, ac</p>
--	--	--	---





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB



			<p>mae'r adborth yr ydym wedi ei gael wedi bod yn gadarnhaol iawn.</p> <p>Cynhelir cyfnod ymgynghori deng wythnos o hyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, a bydd hyn yn rhoi cyfle i'n holl randdeiliaid gynnig eu barn am bob un o'r Amcanion Gwella a Llesiant y manylir arnynt yn y Cynllun.</p> <p>Adroddir yn chwarterol ar y cynnydd a wneir o ran ein Hamcanion Gwella a Llesiant, a hynny i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad, sy'n galluogi i'r prosesau craffu angenrheidiol gael eu cynnal i sicrhau gwelliant parhaus.</p>
--	--	--	--



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

<p><b>Cyfeiriadedd Rhywiol</b> (Hoyw, Lesbiaidd neu Ddeurywiol)</p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Isel</p>	<p>Mae ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol ar gyfer 2023-2024 yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ac yn ein galluogi i gydnabod anghenion byrdymor, tymor canolig a mwy hirdymor y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Ledled ein Hamcanion Gwella a Llesiant, mae yna gyfeiriad clir a fydd yn sicrhau bod ein gweithlu yn ymwybodol o anghenion ei gymunedau ac yn gweithio tuag at leihau'r risg ar gyfer aelodau cymdeithas sy'n agored i niwed.</p> <p>Bwriedir i'r Amcanion Gwella a Llesiant gael effaith gadarnhaol ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i groesawu barn pawb wrth gydgyhyrchu ei Gynllun.</p> <p>Ni fydd Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023-2024 yn cael effaith niweidiol ar y nodwedd hon. Bwriedir i'r Amcanion Gwella a Llesiant gael effaith gadarnhaol ar y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid</p>	<p>Bydd y Gwasanaeth yn dosbarthu Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023-2024 yn eang mewn ymgais i gasglu ystod mor eang â phosibl o safbwyntiau. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd ein dulliau dosbarthu o ran cyfansoddiad yr ymatebwyr, a fydd yn llywio gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn darparu hyfforddiant ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth ac Urddas yn y Gwaith ledled y Gwasanaeth er mwyn meithrin ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth berthnasol. Darperir yr hyfforddiant hwn i atgoffa cyflogeion o</p>
---	-------------------	-------------	--	---





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB



			<p>allanol i annog trefniadau gweithio agosach gyda grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a hynny fel sail i'w raglen allgymorth, ac mae ei brosesau cyfleoedd cyfartal mewnol wedi'u cynllunio i ystyried cyfleoedd cyfartal.</p>	<p>ddisgwyliadau'r Gwasanaeth o ran gweithredoedd ac ymddygiad, yr egwyddorion sy'n sail i bolisiâu allweddol y Gwasanaeth a'r ddeddfwriaeth gyfredol, yn ogystal â chynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo arfer da ar lefel leol.</p> <p>Cynhelir cyfnod ymgynghori deng wythnos o hyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, a bydd hyn yn rhoi cyfle i'n holl randdeiliaid gynnig eu barn am bob un o'r Amcanion Gwella a Llesiant y manylir arnynt yn y Cynllun.</p> <p>Mae ymgynghoriadau blaenorol wedi nodi bod 78% o'r ymatebwyr yn heterorywiol, bod</p>
--	--	--	--	---



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

			<p>1% yn hoyw, bod 1% yn ddeurywiol, nad oedd 11% wedi datgan eu cyfeiriadedd rhywiol, a bod yn well gan 9% beidio â dweud. Felly, byddwn yn parhau i geisio casglu amrywiaeth eang o safbwyntiau wrth lunio ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol er mwyn sicrhau cynhwysiant ac amrywiaeth ledled cymunedau.</p> <p>Adroddir yn chwarterol ar y cynnydd a wneir o ran ein Hamcanion Gwella a Llesiant, a hynny i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad, sy'n galluogi i'r prosesau craffu angenrheidiol gael eu cynnal i sicrhau gwelliant parhaus.</p>
--	--	--	---





**Os nodir risg negyddol a chanolig neu risg negyddol ac uchel ar gyfer unrhyw nodwedd warchoddedig, bydd asesiad llawn yn ofynnol.**

## Sgrinio ar gyfer Effaith Economaidd-gymdeithasol yn rhan o'r Broses Gwneud Penderfyniadau Strategol

Ystyriwch yr anfantais economaidd-gymdeithasol a nodwch a yw eich cynnig am gael effaith gadarnhaol neu negyddol, yna dewiswch a yw risg yr effaith yn **isel** yn **ganolig** neu'n **uchel**.

	<b>Effaith Gadarnhaol neu Negyddol</b>	<b>Lefel y Risg</b> (uchel, canolig, isel)	<b>Eglurwch eich asesiad</b>	<b>Tystiolaeth o arfer da</b>
<b>Anfantais economaidd-gymdeithasol</b> (Sut y gallai hyn effeithio ar y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol?)	Cadarnhaol	Isel	<p>Mae gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r cymunedau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu yn bwysig iawn i ni. Mae pob tân yr ydym yn cael ein galw i ddelio ag ef yn golygu cost i bobl, i leoedd ac i'n hamgylchedd, felly, lle bynnag y bo modd, mae atal tanau yn flaenoriaeth i ni.</p> <p>Yn rhan o'r ymrwymiad yn ein Cynllun Gwella Busnes Blynyddol, rydym am barhau i weithio gyda'n partneriaid i nodi cyfleoedd i gyflawni amcanion cytunedig sydd o fudd i bawb, gan ein bod yn gwybod bod gweithio'n agos gyda'n partneriaid nid yn unig yn helpu i osgoi dyblygu gwasanaethau, ond mae hefyd yn</p>	<p>Bydd y Gwasanaeth yn dosbarthu Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023-2024 yn eang mewn ymgais i gasglu ystod mor eang â phosibl o safbwyntiau. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd ein dulliau dosbarthu o ran cyfansoddiad yr ymatebwyr, a fydd yn llywio gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.</p>

**ASESIAD  
O'R EFFAITH AR  
GYDRADDOLDEB**





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

		<p>ddefnydd gwell o arian cyhoeddus ac yn darparu manteision lluosog i'n cymunedau. At hynny, byddwn yn ceisio cyflawni'r canlynol: archwilio cyfleoedd i ehangu'r broses o ddarparu manteision cymdeithasol i'n cymunedau, ystyried effaith a manteision ein mentrau cymunedol a'n gwaith partneriaeth, ac ymgorffori meini prawf Gwerth Cymdeithasol yn ein prosesau caffael, lle bo hynny'n briodol.</p> <p>A ninnau'n sefydliad mawr, rydym yn cydnabod y gallwn gael effaith sylweddol ar yr economi a'r amgylchedd, ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswydd foesol i wireddu'r manteision hyn i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, gan wella ein cyfraniad i'r economi leol a lleihau'r costau i gymdeithas. Wrth addasu ac amrywio ein gweithgareddau i ddiwallu anghenion ein cymunedau yn well, a gwella'r ffordd yr ydym yn diwallu anghenion y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ein cymunedau, ac yn ymweld â nhw, byddwn yn helpu i'w gwneud mor ddiogel ac mor llwyddiannus â phosibl.</p>	<p>Cynhelir cyfnod ymgynghori deng wythnos o hyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, a bydd hyn yn rhoi cyfle i'n holl randdeiliaid gynnig eu barn am bob un o'r Amcanion Gwella a Llesiant y manylir arnynt yn y Cynllun.</p> <p>Adroddir yn chwarterol ar y cynnydd a wneir o ran ein Hamcanion Gwella a Llesiant, a hynny i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu ar Berfformiad, sy'n galluogi i'r prosesau craffu angenrheidiol gael eu cynnal i sicrhau gwelliant parhaus.</p>
--	--	--	---







Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

			<p>Nod y Gwasanaeth yw cefnogi hyn trwy sicrhau bod pawb sy'n gyfrifol am benderfyniadau strategol yn gwneud y pethau canlynol:</p> <p>Ystyried tystiolaeth ac effaith bosibl trwy ymgynghori ac ymgysylltu.</p> <p>Deall barn ac anghenion y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol.</p> <p>Croesawu her a chraffu.</p> <p>Sbarduno newid yn y modd y gwneir penderfyniadau a'r ffordd y mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gweithredu.</p>	
--	--	--	---	--

**Os nodir risg negyddol a chanolig neu risg negyddol ac uchel ar gyfer anfantais economaidd-gymdeithasol, bydd asesiad llawn yn ofynnol.**

Yr unigolyn neu'r grŵp sy'n gwneud y gwaith sgrinio		Awdurdodwyd gan	
Enw Amy Richmond-Jones	Dyddiad Mawrth 2023	Enw Aled Lewis	Dyddiad Mawrth 2023

**ASESIAD  
O'R EFFAITH AR  
GYDRADDOLDEB**

